# Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

**Dyddiad: Dydd Mercher, 31 Ionawr 2001**
**Amser: 9.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl: Buddiannau Anuniongyrchol yr Aelodau**

## Diben

Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr y dylid rhoi blaenoriaeth i adolygu'r darpariaethau cyfredol sy'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol yr Aelodau. Mae'r papur hwn yn nodi'r cefndir (gyda chyfeiriad at y papurau [ref] a [ref]) ac yn rhestru opsiynau ar gyfer mynd â'r mater yn ei flaen.

## Cefndir

Buddiannau Uniongyrchol

2. Mae **Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998** yn darparu i'r Cynulliad sefydlu a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r Aelodau. Rhaid i'r Rheolau Sefydlog ddiffinio pa fuddiannau y dylid eu datgan. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad ddatgan unrhyw fuddiant ariannol neu fuddiant arall a enwyd cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion y byddai buddiant o'r math hwnnw yn berthnasol iddo.

3. Bydd unrhyw Aelod o'r Cynulliad sydd:

- heb ddatgan buddiant perthnasol cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad; neu
- yn cymryd rhan mewn trafodion pan fo ganddo fuddiant sy'n golygu eo fod yn anghymwys i wneud hynny

yn euog o drosedd yn erbyn y gyfraith, a bydd yn agored i ddirwy (o hyd at £5,000 ar hyn o bryd).

4. Mae **Rheol Sefydlog 4** yn darparu manylion ynghylch y broses gofrestru a datgan. Mae'r **Atodiad i'r Rheolau Sefydlog** yn pennu'r categorïau o fuddiannau y mae'n rhaid eu cofrestru a'u datgan.

Buddiannau Anuniongyrchol

5. Darparodd **Penderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999** y dylid cofrestru buddiannau anuniongyrchol yr Aelodau mewn materion a bennwyd fel a ganlyn yn yr Atodiad i’r Rheolau Sefydlog: "neu faterion tebyg […] os yw’n rhesymol i eraill sy’n ymwybodol o’r buddiant gredu y gallai ddylanwadu ar y ffordd y mae’r Aelod yn cynnal busnes y Cynulliad." Mae paragraffau 6 a 7 y **Canllawiau i Aelodau’r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill** (a fabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mai 1999) yn rhoi diffiniad o fuddiannau anuniongyrchol. Digwydd y fath fuddiannau "pan fo gan berson arall fuddiant (ariannol neu fath arall) yn y mater dan sylw a bod yna berthynas bendant (o ba natur bynnag) rhwng yr Aelod a’r person arall hwnnw."

6. Ceir dyfyniadau perthnasol o’r dogfennau uchod yn Atodiadau A-E.

**Pryderon**

7. O’u hystyried gyda’i gilydd, mae’r gwahanol ddarpariaethau hyn yn codi dau achos pryder mawr:

a) Gorgyffwrdd

Ceir gorgyffwrdd rhwng buddiannau y’u diffinnir fel buddiannau uniongyrchol a’r rheini y’u hystyrir yn fuddiannau anuniongyrchol. Nid yw torri’r rheolau sy’n ymwneud â buddiannau anuniongyrchol yn arwain at droseddau posibl yn erbyn y gyfraith. Mae papur (ref) yn ystyried y mater hwn mewn mwy o fanylder;

b) y diffiniad o fuddiannau anuniongyrchol

Mae buddiannau anuniongyrchol yn eang iawn. Nid ydynt wedi’u diffinio’n gynhwysfawr naill ai ym Mhenderfyniad y Cynulliad a wnaed ar 19 Mai 1999 nac yn y Canllawiau cysylltiedig. Mae’r penderfyniad i’w cofrestru a’u datgan ai peidio yn dibynnu ar farn oddrychol yr Aelod unigol, a faint y gallai eraill feddwl y byddai’r buddiant yn dylanwadu ar weithredoedd yr Aelod.

8. Nid oes unrhyw aelod erioed wedi datgan buddiant anuniongyrchol. Gall hyn olygu nad oes unrhyw fuddiannau felly wedi bodoli. Serch hynny, mae hyn yn annhebygol iawn o gofio’r diffiniad penrhydd a geir yn y canllawiau. Dau bosibilrwydd arall yw bod y canllawiau yn rhy gymhleth, neu nad yw’r Aelodau’n ymwybodol o fuddiannau anuniongyrchol.

**Opsiynau**

9. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr opsiynau canlynol:

a) Gorgyffwrdd

Gwahanu'r buddiannau hynny sy'n berthnasol i ddarpariaethau statudol Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru yn glir oddi wrth y rheini nad ydynt yn berthnasol i'r Adran honno.

b) y diffiniad o fuddiannau anuniongyrchol

i. Dileu'r rheidrwydd i gofrestru a datgan y fath fuddiannau. Serch hynny, efallai y bydd y Pwyllgor yn ystyried y ceid anawsterau wrth gyflwyno'r syniad o ddileu'r darpariaethau hyn. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno osgoi'r sefyllfa hon, rhag ofn y gellid rhoi'r argraff fod y Cynulliad yn gostwng ei safonau, neu'n llacio'r gofal y mae'n ei gymryd wrth blismona buddiannau'r Aelodau. Opsiwn arall felly fyddai

ii. diffinio'n eglur beth a gynhwysir yn y buddiannau hyn o ran (a) y bobl a allai fod yn berchen ar y fath fuddiannau, a hefyd (b) y rheidrwydd i wneud y broses o'u cofrestru a'u datgan yn ddibynnol ar brofion gwrthrychol. Yn ogystal â hyn, os yw'r fath fuddiannau i barhau i gael eu cofrestru a'u datgan, bydd yn rhaid penderfynu a wneir eu cofrestru a'u datgan yn ofynnol yn y Rheolau Sefydlog. Diben gwneud hyn fyddai er mwyn gweithredu darpariaethau Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran:

- cosbau cyfreithiol
- gwahardd rhag pleidleisio, neu
- wahardd o'r Cynulliad

pe torrir y rheolau. Os na wneir hyn, bydd y sefyllfa gyfredol yn parhau, ac ni fydd y cosbau ar gael oherwydd nad yw'r buddiannau wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog, dim ond mewn Penderfyniad sy'n berthnasol i safonau ymddygiad Aelodau. Hynny yw, bydd y tor-rheolau yn syrthio o fewn termau Rheol Sefydlog 16.1 (ii), ac nid Rheol Sefydlog 16.1 (i). Rheol Sefydlog 16 sy'n pennu cylch gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

iii. Ystyried a ddylid cofrestru a datgan y fath fuddiannau. Oherwydd nad oes cosbau cyfreithiol ar gael ar hyn o bryd, yna dylai pob un o'r darpariaethau nad ydynt yn ymwneud â throseddau yn erbyn y gyfraith yn Adran 72 a Rheol Sefydlog 4 fod yn berthnasol, sef:

- Rheol Sefydlog 4.7 – Gwahardd Pleidleisio

- Rheol Sefydlog 4.8 – Gwahardd Aelodau

a dylid tynnu hawliau a breintiau yn ôl os nad yw Aelod yn cydymffurfio ag unrhyw

un o’r darpariaethau cofrestru a datgan sydd yn Rheol Sefydlog 4.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2001**